CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
CYFARFOD MISOL 30ain O FIS EBRILL 2009 AM 7.30PM
YN YR HEN GOLEG, COLEG Y BRIFYSGOL LLANBEDR P.S.

YN BRESENNOL

Cyng Maer Derek Wilson (Cadeirydd);
Cyng. Selwyn Walters (Is-Gadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; Andrew Carter; Elsie Dafis;
John Davies; Margaret Davies-Evans;
Greg Evans; Lynda Mason-George;
Robert Phillips, Kistiah Ramaya;
Chris Thomas & Dorothy Williams.
Cyng. Tref & Sirol Robert (Hag) Harris.

Mr Alfred Morris Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan;
Dr Medwin Hughes Darpar Is-Ganghellor, PC Y Drindod Dewi Sant;
Dr Brinley Jones Llywydd Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan;
Mrs Tricia Carter Is-Lywydd, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan;
Mr Gwyndaf Tobias Cofrestrydd a Phennaeth Gweinyddiaeth, Prifysgol Cymru Llanbedr PS.

Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) Ryan Jones.

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Maer Derek Wilson bawb i'r Cyfarfod.
Cyn dechrau'r Cyfarfod llawn derbyniwyd anerchiad gan y personau yr enwir uchod ynglŷn ag Argymhellion a Chynlluniau Busnes ar gyfer y Brifysgol newydd sef *Y Drindod Dewi Sant* a fydd yn gyfuniad o Goleg Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan (PCLl) a Choleg y Drindod, Caerfyrddin (CDC). Dywedodd yr Is-Lywydd Tricia Carter y byddai'r Brifysgol newydd sef *Prifysgol Cymru (PC) Y Drindod Dewi Sant* yn gweithredu fel un sefydlaid yng Ngorffennaf 2009 o dan y Darpar Is-Ganghellor Dr Medwin Hughes Prifathro presennol Coleg y Drindod Caerfyrddin.

Caiff *PC Y Drindod Dewi Sant* ei sefydlu'n ffurfiol erbyn Gorffennaf 2010. Bydd yn adeiladu ar gryfderau'r ddau sefydlaid, yn dathlu eu hanes unigol ac yn darparu Prifysgol cyfoes, blaengar a fydd yn sbardun i ddatblygu Agenda Drawsnewidiol y Cynulliad ar gyfer addysg ac hyfforddiant yng Nghymru.

Cychwynnodd Dr Brinley Jones Llywydd Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan ei anerchiad drwy nodi ei fwynhâd o'r Lawnsiad *Llwybr-Bywyd* ym Mharc-yr-Orsedd y Dydd Mawrth cyn hynny. Boed i'r digwyddiad ei annog i wella yn ei faes o ymarfer corff a ffitrwydd. Gwnaeth y Maer gytuno â'i sylwadau.

Adroddodd Dr Jones bod Prifysgol Llanbed wedi gorestyn nifer o herion a newidiadau ers ei sefydlu ym 1822. Roedd o'r farn y byddai'r Brifysgol newydd yn adeiladu ar gryfderau, llymder academaidd a thraddodiad rhyngwladol y sefydliadau. Byddai hyn yn sicrhau bod De-Orllewin Cymru yn ddewis cyntaf ar gyfer myfyrwyr a chyflogwyr yn yr ardal a thu hwnt.

Ceisiodd Dr Medwin Hughes gyfleu y byddai'r *Drindod Dewi Sant* yn pwysleisio ar anghenion y gymuned ac anghenion eangach Cymru mewn cyd-destun rhyngwladol. Byddai'n ymrwymo i fuddsoddi yn y ddau gampws. Byddai'r Brifysgol newydd yn dod yn rhan annatod o'r ddwy dref ac yn cyfrannu at eu hanghenion cynaliadwy ac economaidd. Bydd buddsoddiad enfawr yn cael ei wneud mewn adnoddau

ychwanegol ar gyfer campws Llanbed, a fydd ar gael hefyd ar gyfer trigolion y dref. “Mae’n rhaid bod yr ieuenctid yn medru defnyddio’r adnoddau. Mae Prifysgol sydd heb fod yng nghalon y gymuned yn fethiant. Rwy’n rhagolygu mewn 5 mlynedd y bydd gennych *Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant* byrlymus. Rwy’n gweld y Brifysgol yn Llanbed yn adeiladu ar ei rhagoriaeth academaidd. Mae hyn yn ymwneud â buddsoddiad, buddsoddiad yn Llanbed a buddsoddiad ym mhobl Llanbed. Byddwn yn sefydlu Prifysgol ar gyfer Llanbed a Chaerfyrddin.”

Gresynwyd y ffaith y gallai Llanbed dderbyn llai o sylw na’r campws yng Nghaerfyrddin ond sicrhawyd aelodau gan Mr Hughes, mai amcan y weithred oedd datblygu’r ddau gampws yn gyfartal ac i ddenu myfyrwyr i Lanbed a Chaerfyrddin. Beth bynnag, ni allai sicrhau na fyddai swyddi’n cael eu colli fel canlyniad i’r newidiadau.

Caiff penderfyniad ynglŷn â’r £18miliwn o gyllideb o’r *Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio* sy’n allweddol ar gyfer sicrhau llwyddiant y fenter ei wneud gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar yr 8fed o Fai 2009. Dywedodd Dr Hughes na fyddai’r Brifysgol newydd yn mynd yn ei blaen heb y cymhorthdal. Ail-adroddodd Mr Alfred Morris Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, fod PCLl “mewn angen difrifol am gymhorthdal”. Penderfynwyd yn unfrydol i anfon llythyr at GCAUC i roi pwysau ar y Corff i gytuno i’r cais am gymhorthdal. (Cytunodd y Cyng. Harris i ysgrifennu’r llythyr ar ran y Cyngor Tref – gweler Atodiad 1)

Trafodwyd cysylltiadau trafnidiaeth. Gobeithir defnyddio syniadau’r gymuned i greu cysylltiadau trafnidiaeth angenrheidiol rhwng Llanbed a Chaerfyrddin sydd 23 o filltiroedd arwahân. Dywedodd Dr Hughes, “Mae i fyny i ni i ddatblygu mentrau a blaengareddau cymdeithasol newydd, sut y gall y Brifysgol a’r Cyngor ddatblygu gwasanaethau newydd, nid yn unig ar gyfer myfyrwyr ond ar gyfer y gymuned hefyd. Nid oes wedi bod yna ddigon o bwyslais ar fentrau cymunedol gan Brifysgolion yn y gorffennol.”

Mewn perthynas â denu myfyrwyr tramor dywedodd Dr Hughes y byddai’r sefydliad newydd yn ymroi i ddatblygu strategaeth farchnadol gref i ddenu myfyrwyr rhyngwladol.

I gloi, ymrwymodd Dr Hughes i wneud cyflwyniad i’r Cyngor Tref unwaith neu ddwy’r flwyddyn i’w hysbysu o’r datblygiadau parthed y sefydliad newydd.

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL

Diolchodd y Maer a oedd ar fin ymddeol am gefnogaeth a chymorth yr holl bobl a oedd yn bresennol.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

3.1 Datgelodd y Gyng. Mason-George ddiddordeb personol pan darfodwyd y cais cynllunio: newid defnydd ar gyfer Ganolfan Deuluol (grŵp chwarae) 6 Stryd Thomas, Llanbed ac ymadawodd â’r ystafell. (Cofnod 9.2)

4. MATERION YN YMWNEUD Â’R HEDDLU

4.1 ***Ardal Ddi-Alcohol*** **ar gyfer Llanber Pont Steffan**
Yn dal i ddisgwyl ateb gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion yn ymwneud â cynigiad y CT i gwrdd â 50% o'r gost ar gyfer Ardal Ddi-Alcohol i Lanbed i fyny at uchafswm o £2,500 er mwyn symud y mater yn ei flaen.

4.2 **Mae Arolygydd yr Heddlu newydd** wedi dechrau dyletswyddau'n Llanbed megis yr Arolygydd Nicola Carter.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR: 26/03/2009

Cytunwyd eu bod yn gywir.

6. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 **Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref:** yn y cyfarfod olaf adroddodd y Maer ei fwriad i atgyweirio'r hysbysfwrdd yn ystod y dyfodol agos – heb ei gyflawni.

6.2 **Cymuned ar y Cyd:** Meithrin cyd-berthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau Cymuned a Thref; canllawiau terfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru- y ddogfen yn cael ei throsglwyddo o un aelod i'r llall**.**

6.3 **Cynllun Diogelwch a Chymunedol Ceredigion 2008-11: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion**: - y ddogfen yn cael ei throsglwyddo o un aelod i'r llall**.**

6.4 **Trefi Taclus**:

6.4.1 **Bin Ail-gylchu ar gyfer y dref:** gwrthodwyd y cais i leoli bin ar Sgwâr Harford. Boed i'r Clerc siarad â Mr Lyndon Griffiths ynghynt yn y dydd. Dywedodd y gallai'r bin gael ei leoli ym Mharc-yr-Orsedd heb ganiatâd gan mai eiddo'r Cyngor Tref yw'r parc. Byddai angen caniatâd gan y Cyngor Sir i leoli'r bin mewn lleoedd o fewn y dref ee rhwng siop Gwilym Price a Siop *Spar*. Rhaid nodi lleoliad cywir y bin cyn y gall y Cyd-lynydd *Trefi Taclus* Rachel Mills fod mewn syfyllfa i archebu'r bin ac i symud y mater yn ei flaen. Mae manylion y bin wedi eu cyflwyno eisoes i'r Cyngor Sir. Bu i'r Cyng. Rob Phillips gyfarfod â Mr Lyndon Griffiths ar y 26ain o Fawrth i drafod y mater. Adroddodd y Cyng. Walters y dylai'r bin fod yn ddu ac i gynnwys y penawdau Plastig/Caniau.

6.4.2 **Cael gwared â'r graffiti ar hen bont y Rheilffordd:** nid yw'n bosibl ymgymryd â'r gwaith o dan y Cynllun Trefi Taclus. Gadawyd y mater ar y bwrdd yn ystod y cyfarfod olaf

6.4.3 **Gwelliannau ar gyfer Neuadd y Sgowtiaid:** nid yw'r cais am gymhorthdal yn cwrdd â gofynion y Cynulliad Cenedlaethol.

6.4.4 **Cae Maesyderi:** mae prydles 3 blynedd rhwng y Cyngor Sir a'r Cyngor Tref wedi ei threfnu erbyn hyn. Penderfynwyd i gynnwys y "Cae Maesyderi" fel eitem ar yr Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf, gyda'r bwriad o drefnu Is-bwyllgor i gynnwys aelodau'r Cyngor Tref, trigolion sy'n byw yn agos i'r Cae a chynrychiolwyr o glybiau Chwaraeon o fewn y dref. Gallai cymhorthdal fod ar gael o dan y Cynllun *Trefi Taclus* ar gyfer y ffens. Adroddodd y Cyng. Evans y byddai'r gwair yn cael ei dorri cyn bo hir.

6.4.5 **Parc-yr-O rsedd:** archebwyd 5 o feinciau newydd ar gyfer y parc: yn disgwyl amdanynt.

6.5 **Seddau ar gyfer y Swyddfa'r Post**, Llanbedr PS: yn disgwyl ateb oddi wrth y Co-op.

6.6 **Newid Enw Lle – King George V Green i Parc St. Germain-sur-Moine**,: llythyr oddi wrth Y Gymdeithas Efeillio Llanbedr PS yn mynegi eu llawenydd o weld yr arwyddion newydd ar fynedfeydd y dref (yn dal i ddisgwyl arwydd ar

fynedfa Cwmann i'r dref). Hefyd roeddynt yn diolch i'r Cyngor Tref am gytuno i ail-enwi'r *Glas King George V* i Barc St. Germain-sur-Moine, a holwyd petai'n bosibl i godi'r arwydd cyn y 21ain o Fai 2009, ar gyfer yr Ymweliad y Grŵp Cyfnewid o Ffrainc. Roedd hyn braidd yn uchelgeisiol yn nhŷb aelodau wrth ystyried yr amser cyn hynny a myddylid am osod cerflun yn y lleoliad i nodi'r cysylltiad. I drafod ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.

6.7 **Llythyr gan Mr Jamie McCormack Turner 2 Glyndŵr, Teras-yr-Orsaf,** Llanbedr PS, yn gofyn am y ddarpariaeth o arwydd stryd ar gyfer 5 Tŷ Teras Glyndŵr. Awgrymodd 1-5 Glyndwr. Adroddodd Kay Hughes CSC fod y mater yn derbyn sylw, cyn y cyfarfod olaf. Boed i'r Clerc siarad â Mr Lyndon Griffiths CSC ynghynt yn y dydd. Addawodd i edrych mewn i'r mater.

6.8 **Cyngor ar Bopeth:** parthed cais y CT am gyflwyniad. Yn disgwyl ateb oddi wrthynt.

6.9 **Cais am Flychau Graeanu (Halen**) ar gyfer Ystâd Penbryn a Maes Parcio'r Rookery: wedi eu gosod mewn lle.

6.10 **Gofynnwyd i GSC** petai'n bosibl i'r Heol Un-Ffordd Mountwalk gael ei throsi i ganiatau cerddwyr yn unig am resymau diogelwch. Adroddwyd fod cyfarfod safle wedi cymryd lle ar Ddydd Gwener 3ydd o Ebrill rhwng cynrychiolaeth y CT a Rachel Thomas CSC. Ni dderbyniwyd adborth parthed y cyfarfod hwn.

6.11 **Cŵn yn Baeddu:** archebwyd 100 o daflenni dan law'r Cyngor Sir. Mae'r taflenn'n cael eu hail-argraffu ar hyn o bryd.

6.12 **Seremoni Urddo'r Maer 2009:** mae'r Agenda wedi ei gyflwyno i aelodau.

6.13 **Llogi'r Cae Bryn:** penderfynwyd i beidio â chyflwyno cynnig ar gyfer y les y Cae'r Bryn.

7. GOHEBIAETH

7.1 **Dewch i Grwydro'r Senedd**: gwahoddiad oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol i ymweld â'r Senedd – teithiau, bob dydd am ddim i grwpiau hyd at 50 – i drafod ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.

7.2 **Enillwyr Garddwest Palas Buckingham** – 14eg o Orffennaf: bydd y Maer a'r Faeres newydd ymddeol yn mynychu'r Garddwest a drefnwyd gan Un Llais Cymru. Tynnwyd enwau 16 o gynghorau buddugol o'r het ar y 31ain o Fawrth 2009.

7.3 **Bwlbiau Cennin Pedr Wir-Gymreig –** Prynwch un sach 25kg am £20 (oddeutu 500 o fwlbiau); yr ail fag yn rhad ac am ddim – er gwybodaeth

7.4 **Gohebiaeth eraill**: er gwybodaeth yn unig.

8. MENTER LLAMBED

Adroddodd y Cyng. G.Evans y newyddion diweddaraf yn ymwneud â Menter Llambed.

8.1 **Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn** ystod yr wythnosau nesaf. Cafodd y Cynghorwyr Greg Evans, John Davies a Selwyn Walters eu hethol am yr ail dro i gynrychioli'r Cyngor Tref ar Fwrdd Menter Llambed.

8.2 **Mae'r Cynlluniau'n** ymwneud â Neuadd Fictoria yn mynd yn eu blaen.

8.3 **Mae offer Technoleg Gwybodaeth** ar gael gan Menter Llambed at ddefnydd y cyhoedd.

9. CYNLLUNIO

9.1 Boed i'r ceisiadau canlynol eu caniatau gan GSC

Hysbyswyd y CT gan GSC	**Ymgeisydd & Bwriad**	**Lleoliad:**
25/03/2009 Rhif y Cais: A080977	Mr C Powell Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan

	Codi llift allanol	
15/04/2009 Rhif y Cais: AO90026LB	Mr B G Taylor Beechwood 30 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan Gosod ffenestri newydd a drysau sy'n cydweddu.	Beechwood 30 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan
25/03/2009 Rhif y Cais: A080489LB	Ymddiriedolwyr Eglwys San Pedr Llanbedr PS Gosod ffenestri a drysau newydd	Tŷ'r Eglwys Stryd Fawr Llanbedr PS (Hawl Adeilad Rhestredig)
30/04/2009 Rhif y Cais: A080295	Mr & Mrs C Jones Coed y Glyn Ffordd Glynhebog Llanbedr PS Codi byngalo	Tir gerllaw Coed y Glyn Ffordd Glynhebog Llanbedr PS

9.2 **Cais Cynllunio:** newid defnydd ar gyfer Ganolfan Deuluol (grŵp-chwarae) 6 Stryd San Thomas, Llanbedr PS. Rhif y Cais: AO90212: Dyddiad derbyniwyd: 31/03/2009. Sylwadau'r Cyngor Tref: Y Cyngor Tref yn hollol gefnogol i'r Cais.

9.3 **Mae'r cais canlynol wedi ei wrthod gan y Cyngor Sir:** Estyniad llawr cyntaf i'r adeilad i maisonette, 19 Stryd Fawr, Llanbedr PS. Ymgeisydd: Mr Nick Wright, 19 Stryd Fawr, Llanbedr Ps. Rhif y Cais: A090042. Rhesymau pan wrthodwyd y cais: Byddai'r estyniad arfaethedig yn cael dylanwad negyddol ar amwynder preswyl perchnogion Rhif 20 Styrd Fawr, sydd wedi ei leoli yn union i'r gorllewin o safle'r cais. Byddai'r estyniad arfaethedig, oherwydd ei faint, swmp, dyluniant a safle yn golygu gostyngiad aruthrol yn ngolau dydd yr eiddo cyfagos.
Mae'r bwriad felly'n wrthwyneb i gyngor Polisi Cynllunio Cymru (2002), Datganiad Polisi Cynllunio Gweinyddiaethol Dros-Dro 1/2008- Cynllunio ar gyfer Dylunio Da (2008) a Nodyn Cyngor Technegol 12: Dyluniant (2002); i Bolisi H (o Gynllun Strwythur Dyfed 1990 gan gynnwys newidiadau Rhif 1); o Bolisiau GEN2.1, GEN 4.1, ENVB 1.1, H3.5 a H4.4; O Gynllun Datblygu Unedol Ceredigion 2001-16 (Fersiwn Newidiadau Arfaethedig) ac i'r arweiniad a dderbyniwyd gan Gyfarwyddyd Ychwanegol Cyngor Sir Ceredigion Nodyn 1 – Egwyddorion Dyluniant Preswyl (2000). Dyddiad 23/03/2009.

9.4 **Cofnodion Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC:** Swyddfa'r Cyngor Sir, Penmorfa Aberaeron, 11/03/2009 ac Agenda y cyfarfod o'r 8/04/2009: er gwybodaeth**.**

9.5 **Cyngor Sir Ceredigion: Ymgynghori Cyn Adneuo ar Ddogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol**: Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori ynghylch Dogfennau Cyn Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r rhan hon o'r ymgynghori'n cynnwys y dogfennau canlynol: (1,2&3) 1) Y Strategaeth a Ffefrir gan gynnwys: Y materion allweddol sy'n effeithio ar Geredigion; Y Weledigaeth a'r Amcanion, Y brif strategaeth ar gyfer cyfnod y Cynllun, Y polisiau strategol allweddol, Methodoleg asesu'r safleoedd arfaethedig posibl. 2) Adroddiad Dechreuol Arfarnu Cynaladwyedd; & 3) Adroddiad Sgrinio'r Asesiad y Rheoliadau Cynefinoedd.
Bydd dogfennau Cyn Adneuo'r CGLl yn amlinellu lefel y twf sydd dan ystyriaeth, lleoliad y twf, pa ardaloedd i'w diogelu ac ati. Daeth yr Ymgynghoriad i ben ar yr 28 ain o Ebrill. Cyflwynwyd ymateb gan y Cyngor Tref.

10. CYLLID

10.1 Ceisiadau Ariannol:

10.1.1 Eisteddfod Gŵyl y Banc Llanbedr PS: cyfraniad o £1,000

10.1.2 Cangen yr Urdd Llanbedr PS: bydd parti'n ymweld â'r Eisteddfod Yr Urdd ym Mae Caerdydd i gystadlu a bydd hyn yn golygu aros dros-nos. Cyfraniad o £250.00

10.2 Llythyr o ddiolch oddi wrth *MenCap Cymru* am y rhodd diweddar o £50.00; o *Gymdeithas y Pwll Nofio* am y rhodd o £1,000 ac o *Gymdeithas Gerdd Llanbedr PS* am y cyfraniad o £200.

10.3 Penderfynwyd i beidio â chyfrannu at y *Gronfa Cancr Colo Rectal Canolbarth Cymru.*

10.4 Llythyr oddi wrth Kathryn Dupont Gofalwyr Y Groes Goch prosiect Gweithwyr Maes: yn gofyn am gymorth ariannol ar gyfer costau cychwynnol grwp o ofalwyr yn gweithio ar liwt eu hun yn ardal Llanbedr PS. Penderfynwyd darganfod gwybodaeth pellach ynglŷn â'r prosiect.

10.5 Cyflog y Clerc (Ebrill) £515.06 (gan gynnwys 2.5 o oriau i gyfieithu *Croeso'r Maer* yn y Llyfryn Tref)

10.6 Golau/Gwres/Storio: £20.00

10.7 Treth Incwm a Chyfraniadau YC: £83.45

10.8 Mr Eirwyn Williams: Tocio'r berth ym Mharc-yr-Orsedd ger Cae'r Bryn a gwaredu â bagiau o chwyn £50.00.

10.9 Treuliau y Gyng. D.Williams ar gyfer y Bwffe- Lawnsiad Swyddogol y prosiect "Llwybr-Bywyd" ar yr 28ain o Ebrill £121.13, ar gyfer oddeutu 60 o bobl.

10.10 Hurio'r Neuadd Fictoria – Te – Ieuanc mewn Ysbryd CSC £51.25.

10.11 Tâl Blynyddol CTCC £12,000 TAW £1,800.

10.12 *Cascade* Llanbedr PS: Balwnau Heliwm £15.00 Prosiect "Llwybr Bywyd".

10.13 Llog a dderbyniwyd: Alliance & Leicester £715.19 - 9fed Hydref – 8fed Ebrill.

10.14 Praesept Blynyddol CSC £43,090.70 – derbyniwyd gostyngiad o oddeutu £130 yn y praesept cyn ei dderbyn i gwrdd â chostau Etholiadol Mai 2008 (costau gweinyddol gan ni gynhaliwyd Etholiad Cyngor Tref yn Llanbedr PS).

10.15 BDO Stoy Hayward LLP Cyfrifwyr Siartredig: Dyddiad yr Archwiliad ar gyfer Cyngor Tref Llanbedr PS: 18fed o Fedi 2009. Penderfynwyd gofyn i Mr Dave Smith tybed a fyddai'n gytûn i ymgymryd â'r Archwiliad Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008-09.

10.16 Lwfans y Maer: Penderfynwyd yn yr Adroddiad Cyllid Ionawr 2009 i gynnwys codiad o 3% o fewn y gyllideb ar holl gostau (ee hurio neuaddau, yswiriant, Tanysgrifiadau Blynyddol) y Cyngor Tref ar gyfer y flwyddyn 2009-10. Byddai hyn yn cynnwys lwfans y Maer, sydd wedi cynyddu'n raddol dros ystod o flynyddoedd yn ddilynol. £2,587.50 oedd cyfanswm lwfans y Maer ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008-09. Byddai £78 yn ychwanegol yn cael ei dalu i gwrdd â'r 3% ar gyfer 2009-10. Y mae costau bwyd ac ynni wedi codi'n aruthrol yn ystod y flwyddyn olaf a byddai'r gost ychwanegol yn cael ei adlewyrchu'n y gost o'r ee Cinio Sefydlu'r Maer, Bwffe Gwasanaeth Dinesig y Maer, Parti'r Faeres i Drefnu Parti Nadolig Ieuanc Mewn Ysbryd yn ogystal â chostau teithio. Penderfynwyd i drafod y mater ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.

10.17 Y mae £40,000 wedi ei drosglwyddo o'r Cyfrif Alliance & Leicester i'r Lloyds TSB. Y mae £60,000 o'r cyfanswm Lloyds TSB wedi ei osod mewn cyfrif sy'n cynnig 2% (sefydlog) y flwyddyn, ni chaniateir codi arian o'r cyfrif yn ystod y cyfnod o flwyddyn. Y mae trefniadau mewn llaw i drosglwyddo £40,000 o'r Lloyds TSB i'r Banc Barclays i gyfrif sy'n cynnig gwell llog i'r 0.1% presennol.

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 LLWYBRAU CERDDED (gan gynnwys Parc-yr-Orsedd)

11.1.1 Grant Cynllun Llwybrau Cymunedol CSC 2009-10: llythyr dan law'r CSC yn mynegi bod £487.50 wedi ei glustnodi i'r Cyngor Tref ar gyfer cynnal a chadw'r llwybrau cerdded dros fisoedd yr haf.

Gofynnwyd am ddyfynbrisiau ar gyfer torri gwair ym Mharc-yr-Orsedd dros fisoedd yr haf ac i gynnal a chadw'r llwybrau cerdded.

Cynllun Gwella Tramwy CSC a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2008 (gwnaed cais am gymhorthdal ar gyfer y llwybr yn arwain o iard yr hen orsaf at Longwood; gwneud gwellianau i'r llwybr Forest Walk/Heol y Wîg a gwella cyflwr y llwybr Gwêl y Creuddyn i Aberaeron Cyfeirnod 61/16): yn ôl y Cyngor Sir nid yw'r llwybrau dan sylw wedi eu cofrestru fel Llwybrau Cerdded Swyddogol. i drafod y mater ymhellach yn ystod y Cyfarfod nesaf.

11.1.2 Parc-yr-Orsedd: *Lansiad Swyddogol* y Parc i gynnwys yr offer Cadw'n Heini fel yr ariennir gan Gyngor Chwaraeon Cymru - Dydd Mawrth 28ain Ebrill am 2.00pm.

Ym 2006 boed i'r Cynulliad Cenedlaethol glustnodi £4miliwn ar gyfer y *Cynllun Ffyrdd o Fyw Egnïol* a gafodd ei gomisynu gan Gyngor Chwaraeon Cymru (CChC) i weinyddu'r cynllun. Boed i'r Cyngor Tref Llanbedr PS dderbyn £25,000 o gymhorthdal ym mis Ebril 2007. Fel canlyniad prynwyd cyfarpar megis 6 Gorsaf Llwybr Bywyd *Gweithio Eich ffordd i fod yn Iach* o'r Cyflenwyr PlayWorld Systems, sy'n cynnig ymarferion megis cynhesu i fyny, ymestyn y gar, gwneud y torso yn gadarn a chryfhau'r cefn yn ogystal â 2 wal ddringo ar gyfer plant. Daeth cynulliad o oddeutu 60 o bobl ynghyd ar gyfer yr Agoriad Swyddogol. Cyd-lynydd y digwyddiad oedd y Clerc ac ymysg y dyrfa oedd y Maer a'r Faeres Derek Wilson, Mr Keith Evans (Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion); Miss Bronwen Morgan (Prif Weithredwraig Cyngor Sir Ceredigion); Mr Odwyn Davies (Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion); Mr Phillip Lodwick (Cadeirydd Cymdeithas Cerdded Llanbedr PS), cynrychiolwyr o Gyngor Chwaraeon Cymru Mr James Owens & Cyng. Tref & Sirol Hag Harris; Cyng. Sirol Ivor Williams; Cyng. Tref Greg Evans, John Davies, Andrew Carter, Dorothy Williams, Margaret Davies-Evans, Selwyn Walters, Kistiah Ramaya, Elsie Dafis, Cecilia Barton, Disgyblion Ysgol Ffynnonbedr a'r Prifathro Mr Huw Jenkins, a chroestoriad o gynrychiolwyr o fudiadau gwahanol o fewn y dref.

Agorwyd y Lawnsiad gan y Maer Derek Wilson. Gobeithiai y byddai'r digwyddiad yn ysgogiad i bobl, nad oedd yn ymgymryd ag ymarfer corff yn rheolaidd i wneud hynny. Soniodd y Cyng. Harris am bolisiau Gyngor Chwaraeon Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, dyheadau ar gyfer lefelau ymarfer corff y boblogaeth a manteision ymarfer corff cyson. Eglurodd y Cyng. Greg Evans ar sut iddo drefnu'r prosiect "Llwybr Bywyd" ar ran y Cyngor Tref. Bu i Mr Lodwick arddangos pwrpas y gorsfeydd ymarfer corff, tra bu'r disgyblion yr ysgol gynradd yn ymroi i amlygu rhinweddau'r fframau dringo, drwy eu llygaid. Darparwyd Bwffe ar ôl hynny'n y Neuadd Fictoria. Y Gyng. Dorothy Williams oedd yn gyfrifol am y trefniadau arlwyo. Boed i'r lluniaeth gael ei baratoi a'i gyflwyno i'r radd flaenaf a bu'r *Croeso Anffurfiol* i nodi'r achlysur yn gaffaeliad i lwyddiant y digwyddiad. Penderfynwyd anfon llythyr at y Gyng. Williams i ddiolch iddi am ei hymdrechion. A wnewch chi gyfeirio at Atodiad 2 yn ymwneud â Datganiad i'r Wasg – Cyngor Chwaraeon Cymru parthed y digwyddiad ac yn dwyn y teitl "Bywyd Newydd i Lanbedr Pont Steffan" ac i Atodiad 3 – "Manteision Ymarfer Corff" (yn Saesneg un unig)- dosbarthwyd yn ystod y Lawnsiad.

11.1.3 Mynedfa Newydd ar gyfer Parc-yr-orsedd: Y mae Mr Glanville Evans wedi gorffen y gwaith.

11.1.4 Mae'r mwyafrif o'r gwelliannau a grybwyllwyd gan y Cyng. C.Thomas wedi eu cwblhau erbyn hyn. Mae angen cloriau newydd ar gyfer y

biniau. Mae'r berth gerllaw y Cae'r Bryn wedi ei thocio gan Mr Eirwyn Wiliams. (A wnewch chi gyfeirio at y Cofnodion Mis Chwefror am fanylion y gwelliannau).

11.1.5 Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion Adroddiad Blynyddol 2008 + Holiadur ee "A yw eich Cyngor Tref o'r farn y byddai sefydlu fforwm blynyddol ar hawliau tramwy yn ddefnyddiol?" – nodwyd er gwybodaeth.

12.2 CTCC

12.2.1 Adroddiad Misol ar gyfer Mis Mawrth CSC: bu yna 2 cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud â chadw rheolaeth ar y cyhoedd ac ysgarmes. Nid oedd yr holl gamerau'n arddangos nac yn recordio o'r 7/03/2009 ond cafodd y broblem ei datrys ar y 11/03/2009 (collwyd 4 niwrnod arolygu gan y camerau). Nid oedd adnodd "chwyddo llun" ar gael ar un camera o'r 7/03/20009 tan y 11/03/2009.

12.3 GOLEUADAU STRYD

12.3.1 Bydd y fenter newydd y Cyngor Sir i ddiffodd goleuadau stryd mewn mannau penodedig o fewn y dref o 12 Canol Nos tan 5am yn cychwyn yn ystod misoedd yr haf.

12.4 PALMANTAU

12.4.1 Y mae drain wedi ei blocio ar y palmant sydd wedi ei leoli rhwng Siop Gwilym Price a'r Siop Spar.

12.5 YR IAITH GYMRAEG

Y mae ffurflen ddrafft wedi ei llunio gan y Cyng. Phillips ar gyfer darpar ymgeiswyr grantiau sy'n cael eu cyfrannu dan law'r Cyngor Tref. Bydd angen trafodaethau pellach cyn llunio'r ffurflen orffenedig.

13. U.F.A.

13.1 Gan nad oedd materion eraill i'w trafod death y cufarfod i ben am 8.45pm.

14. Dyddiadau y cyfarfod nesaf:

Nos Wener 1 af o Fai Seremoni Urddo'r Maer yn yr Hen Goleg, Coleg y Brifysgol, Llanbedr PS.

Cyfarfod Misol Nos lau 28ain o Fai am 7.00pm, Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

----------(Cadeirydd & Dyddiad)